y Goleuad

EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU · GOLEUNI Y BYWYD

CYFROL CXXXVII RHIF 44 DYDD GWENER, HYDREF 30, 2009 Pris 40c

CROESO I SASIWN Y GOGLEDD

Capel y Porth, Porthmadog

Tro Henaduriaeth Gorllewin Gwynedd yw hi i groesawu Sasiwn yr Hydref eleni a hynny ar Ddydd Mercher, Tachwedd 4ydd. Mae'n Henaduriaeth eang o 80 milltir ac yn cynnwys 61 o eglwysi. Gan fod Porthmadog yng nghanol yr Henaduriaeth sy'n ymestyn o Uwchmynydd i Bennal yno, yng Nghapel y Porth, y cynhelir holl bwyllgorau'r Henaduriaeth. Yno hefyd y cynhelir dwy o'r pedair o'r Eisteddfodau ac yno, felly, yn ei thro y cynhelir y Sasiwn.

Mae hanes Methodistiaeth yng nghylch Porthmadog yn hynod o ddiddorol. Peniel, Tremadog, yw'r fam eglwys. Gyda thwf poblogaeth Tremadog wedi i William Alexander Maddocks ennill tir o'r môr o ganlyniad i godi'r ddau forglawdd cyntaf fe agorwyd Peniel ar Chwefror 17/18, 1810. Diddorol yw sylwi ar enwau'r rhai oedd yn cyd-eistedd yn y Sêt Fawr ar achlysur yr Agoriad – Thomas Charles, John Eleias, William Alexander Maddocks a Twm o'r Nant!

Mae'r ddwy ganrif wedi gadael eu hoel yn drwm ar yr adeilad a bu yn rhaid i'r gynulleidfa symud allan ohono tua blwyddyn yn ôl i addoli yn y Neuadd Goffa yn Nhremadog.

Mae'n adeilad arbennig yn hanesyddol a phensaernïol wedi ei adeiladu ar gynllun Eglwys St. Paul, Covent Garden yn Llundain. Ein gobaith yw y gellir trosglwyddo'r adeilad Rhestredig Gradd I yma i Ymddiriedolaeth Addoldai Cymru yn y dyfodol agos i'w adfer a'i ddiogelu ar gyfer y dyfodol.

Wrth i dref Porthmadog gynyddu yn ei phwysigrwydd fel porthladd i lechi Ffestiniog cynyddodd y boblogaeth yno ac aeth 60 o aelodau Peniel i sefydlu Achos yn y Port ac agorwyd Capel y Garth yn 1845. Bu'n rhaid ehangu'r adeilad ddeng mlynedd yn ddiweddarach ac erbyn Diwygiad 1859 'roedd y Capel yn llawer rhy fach eto a gofynnwyd i 140 o aelodau'r

Garth fynd i agor Capel y Tabernacl, yr ochr arall i'r dref. Agorwyd Y Tabernacl yn 1862 ac adeiladwyd Capel y Garth arall ehangach na'r Garth gwreiddiol rhwng 1896 a 1898.

Yn ddiamau 'roedd dylanwad Diwygiad 1859 yn drwm ar yr eglwysi ac fe welwyd cyfnod yr ehangu ac adeiladu'r capeli mawr.

Ond daeth tro ar fyd.

Ond credwn ein bod yn gweld yr un Ysbryd wth ei waith o hyd. Wedi'r ehangu a'r cynyddu gwelwn y tynnu'n ôl at ein gilydd a'r crynhoi adnoddau mewn cyfnod gwahanol dan arweiniad yr un Ysbryd.

Unwyd Capel y Garth a'r Tabernacl yn 1996 dan arweiniad y Parchedigion Elwyn a Gwenda Richards a wnaeth waith rhyfeddol i ddod â'r ddwy eglwys at ei gilydd. Parch Gwenda Richards oedd Gweinidog cyntaf yr eglwys newydd unedig – Capel y Porth. Codwyd Capel newydd ac fe gafwyd yr Agoriad Swyddogol ar Fehefin 22ain gyda pump o'r cyn-Weinidogion yn bresennol. Mae'r adeilad newydd yn ysgafn a golau ac yn hyblyg ar gyfer pob math o wasanaethau.

'Roedd y Capel Saesneg eisoes wedi ymuno â Chapel y Garth ac ymunodd Nazareth, Morfa Bychan â'r eglwys newydd unedig. Yn ystod 2009 fe ymunodd Ebeneser, Borth-y-Gest a Chapel Minffordd hefyd â Chapel y Porth.

Mae'r uno wedi dod a'i fendith.

Bellach, mae Capel y Porth yn elgyws gref o tua 330 o aelodau, gyda 26 blaenor a thua 70 o blant. Un o gryfderau'r eglwys yw fod ynddi nifer fawr o deuluoedd ifanc a bod ynddi bwyslais mawr ar waith plant ac ieuenctid.

Parhaodd Ysgol Sul y plant yn gryf a bydd tua 35 o bobl ianc oedran 11-16, yn dod yn gyson i'r Clwb Ieuenctid ar Nos Wener.

Capel y Porth felly, a'i fwrlwm, fydd yn estyn ei chroeso i'r Sasiwn ymhen ychydig ddyddiau.

Mae pysurdeb yr haf wedi hen fynd heibio o'r Port unwaith eto. Erbyn hyn edrych ymlaen a wnawn i groesau'r Sasiwn.

Gobeithio y bydd hi'n braf ar Dachwedd 4ydd er mwyn i chwi gael mwynhau peth o hyfrydwch y wlad yn Eifionydd – y môr a'r mynydd – y canodd Eifion Wyn gymaint amdanynt.

Ond pwysicach na hynny, hyd yn oed, yw hyderu y bydd Bendith y Nef arnom wrth inni gymdeithasu, trafod, ystyried, penderfynu, cofio a llongyfarch ac yn bwysicach na dim wrth inni dderbyn Y Cymun yn Oedfa'r Hwyr.

Croeso mawr i Gapel y Porth.

Gareth Edwards.

Y CYFARFOD CYHOEDDUS

Nos Fercher, Tachwedd 4ydd, am 7 o'r gloch

SACRAMENT
SWPER YR ARGLWYDD

Gweinyddir y Cymun ac Anerchir o flaen y Cymun gan Lywydd y Sasiwn – Y Barchedig Megan Williams, B.A., B.D., Dolgellau

CYMDEITHAS AC ALCOHOL HEDDIW

Nos Wener Tachwedd y 6ed ym Merea Newydd, Bangor am 7:30

Trafodaeth yng ngwmni
HYWEL WILLIAMS, A.S.
ac ANEURIN OWEN
o Sefydliad Astudiaethau Alcohol

CROESO CYNNES I BAWB

Trefnir gan Bwyllgor Eglwys a Chymdeithas Henaduriaeth Arfon